**At:**

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub
Clercod Cynghorau Cymuned a Thref

Annwyl Gyfeillion

13 Chwefror 2020

**Adroddiad Atodol Drafft – Egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu Costau Gofal**

Am nifer o flynyddoedd, mae'r Panel wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu nifer yr aelodau ar Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub, sy'n manteisio ar y cymorth ariannol a ddarperir ar gyfer y rheini sydd â chyfrifoldebau gofal neu anghenion personol. Rydym yn credu bod darparu'r cymorth hwn yn bwysig er mwyn cynyddu a chynnal amrywiaeth ymysg aelodau'r sefydliadau hyn.

Rydym yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn gyson, gan groesawu sylwadau ac awgrymiadau ynghylch sut y gellid annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth.

Mae'r Adroddiad Atodol drafft yn gam yn y broses adolygu barhaus. Mae'n cynnig set o egwyddorion y dylai pob awdurdod perthnasol eu mabwysiadu. Dogfen ymgynghori yw hon, a byddai'r Panel yn ddiolchgar o gael eich sylwadau cyn cyhoeddi'r Adroddiad terfynol. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o wyth wythnos, a dylid anfon eich ymatebion erbyn **9 Ebrill 2020**.

Yn gywir,

John Bader
Cadeirydd